Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Toiledau Lleoedd Newid a Lleoedd Newid Clytiau Babanod

## Ein syniadau ar gyfer cael mwy o'r cyfleusterau hyn mewn adeiladau

**Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl**



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o '**Newidiadau Polisi Drafft – Toiledau Lleoedd Newid a Darpariaeth Newid Clytiau Babanod**' – Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru.

**Chwefror 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen help i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd y geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.




Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd mewn ysgrifennu glas cyffredin. Gallwch chi edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 23**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Cysylltwch â ni os oes arnoch chi angen y ddogfen hon mewn print bras, braille neu ieithoedd eraill:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfeiriad:** Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

**E-bost:** enquiries.brconstruction@gov.wales

**Ffôn:** 0300 062 8144

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

# Cynnwys

**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon....................2**

**Cyflwyniad....................4**

Beth yw Toiled Lleoedd Newid?....................5

Lleoedd i newid clwt eich babanod....................6

**Ein syniadau....................8**

Cynlluniau'r Awdurdod Lleol ar gyfer toiledau....................8

Rheoliadau adeiladu....................9

Polisi Cynllunio Cymru....................10

Ein syniadau ar gyfer cael mwy o Doiledau LleoeddNewid....................12

Ein syniadau ar gyfer Lleoedd Newid Clytiau Babanod....................17

Costau eraill....................22

**Geiriau anodd....................23**

# Cyflwyniad



Mae arnon ni eisiau cael mwy o **Doiledau Lleoedd Newid**. A mwy o leoedd ble gall pobl newid clytiau eu babanod mewn lleoedd cyhoeddus.




Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'n cynlluniau i wneud i hyn ddigwydd. Ac mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl.




Darllenwch y ddogfen hon, ac yna llenwch y ffurflen ymateb.

# Beth yw Toiled Lleoedd Newid?



Mae Toiled Lleoedd Newid yn lle cyhoeddus sydd â thoiled, **cyfarpar** arbennig a lle i newid.



Mae **cyfarpar** yn bethau fel meinciau newid, sgriniau preifatrwydd, **teclynnau codi** a larymau diogelwch.
Mae **teclyn codi** yn ddarn o gyfarpar sy'n gallu cael ei ddefnyddio i godi rhywun. Er enghraifft, allan o gadair olwyn ac ar y toiled.



Mae'n rhoi lle diogel a chyfforddus i bobl sydd â llawer o wahanol anghenion ei ddefnyddio pan fyddan nhw allan.



Nid ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn yn unig y mae **Toiledau Lleoedd Newid**.




Mae'n bwysig cael **Toiledau Lleoedd Newid** mewn lleoedd cyhoeddus.



Mae **Toiledau Lleoedd Newid** yn gadael i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau cyffredin. A byw y bywyd maen nhw'n ei ddewis.

## Lleoedd i newid clwt eich babanod



Mae llawer o fabanod yn cael eu geni yng Nghymru bob blwyddyn. Ac mae ar bobl angen rhywle glân a diogel i newid clytiau eu babanod pan fyddan nhw allan.



Mae gan lawer o adeiladau cyhoeddus leoedd ble gall pobl newid clytiau eu babanod, ond nid yw'r lleoedd hyn yn aml:



- yn dda iawn, neu



- dim ond mewn toiledau merched neu doiledau **hawdd eu defnyddio**, sydd ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, y maen nhw ar gael.

Wrth wneud pethau'n **hawdd eu defnyddio** gall mwy o bobl eu defnyddio.



Gall hyn feddwl bod rhieni a gofalwyr yn cael eu gorfodi i newid clytiau eu babanod ym mha le bynnag sydd ar gael. Neu efallai y bydd yn rhaid iddyn nhw osgoi mynd i rai lleoedd yn gyfan gwbl.



Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod gan bawb yr un mynediad at gyfleusterau sy’n cwrdd â’u hanghenion.



Mae arnon ni eisiau mwy o **Doiledau Lleoedd Newid a Lleoedd Newid Clwt** mewn lleoedd cyhoeddus fel:

- Canolfannau siopa
- Ysbytai
- Canolfannau hamdden.

# Ein syniadau



Mae arnon ni eisiau newid y canllawiau a'r polisïau canlynol, i helpu pobl i feddwl am **Doiledau Lleoedd Newid** a **Lleoedd Newid Clytiau**:

- **Cynlluniau toiled awdurdodau lleol**
- **Rheoliadau adeiladu**
- **Polisi cynllunio Cymru**

## Cynlluniau toiled awdurdodau lleol




Mae **Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017** yn ddeddf. Mae'n dweud bod yn rhaid i bob awdurdod lleol ysgrifennu cynllun ar gyfer toiledau yn eu hardaloedd.



Fel rhan o hyn, mae'n rhaid i awdurdodau lleol weld beth yw'r angen am **Leoedd Newid** a **Lleoedd Newid Clytiau** yn eu hardaloedd. A dweud sut maen nhw'n bwriadu cwrdd â'r angen hwnnw.



Mae arnon ni eisiau i awdurdodau lleol feddwl pa doiledau cyhoeddus sydd ar gael yn barod yn eu hardaloedd nhw.



A chanolbwyntio ar wella'r toiledau hyn fel bo mwy o bobl sydd â gwahanol anghenion yn gallu eu defnyddio.

## Rheoliadau adeiladu




Mae **rheoliadau adeiladu** yn rheolau i wneud yn siŵr bod pobl yn iach ac yn ddiogel y tu mewn ac o amgylch adeiladau.



Mae'n rhaid dilyn rheoliadau adeiladu wrth wneud unrhyw waith adeiladu **newydd**.



Mae canllawiau i helpu pobl ddilyn y rheoliadau adeiladu. Mae'r canllawiau'n dweud:



- beth mae'n rhaid i chi wneud er mwyn i adeiladau fod yn hawdd eu defnyddio.



- sut fath o le y dylai toiledau hawdd eu defnyddio a lleoedd newid babanods fod mewn adeiladau cyhoeddus.



Mae **cyrff rheoli adeiladau** yn edrych i wneud yn siŵr bod y canllawiau hyn yn cael eu dilyn. Mudiad yw hwn sy’n archwilio gwaith adeiladu.




Ond ni all rheliadau adeiladu ein helpu i feddwl ble mae Toiledau Lleoedd Newid. A **ble** mae’r **angen mwyaf** am Doiledau Lleoedd Newid.



Felly, mae arnon ni angen gwneud newidiadau i **Bolisi Cynllunio Cymru** hefyd, i’n helpu gyda hyn.


## Polisi Cynllunio Cymru




Dogfen yw **Polisi Cynllunio Cymru**. Mae’n dweud beth mae angen i bobl feddwl amdano wrth gynllunio newidiadau i fannau cyhoeddus yng Nghymru.



Mae’n dweud bod yn rhaid i adeiladau a lleoedd gael eu gwneud ar gyfer pawb i’w defnyddio a’u mwynhau.




Mae’n rhaid i bob cynllun ar gyfer gwaith adeiladu feddwl am:

- anghenion pobl anabl



- anghenion pobl hŷn a phobl sydd â phlant ifainc.



- **Toiledau Lleoedd Newid** yn ogystal â thoiledau safonol hawdd eu defnyddio.

**Mae Polisi Cynllunio Cymru** hefyd yn rhoi cyngor ynghylch:



- pa fathau o leoedd ac adeiladau ddylai gael **Toiled Lleoedd Newid**



- maint **Lleoedd Newid Clytiau Babanod** a’r mathau o leoedd y dylen nhw fod.

# Ein syniadau ynghylch cael mwy o Doiledau Lleoedd Newid




Mae arnon ni eisiau gwella **canllawiau** y rheoliadau adeiladu i wneud yn siŵr bod pobl yn meddwl am **Doiledau Lleoedd Newid** wrth iddyn nhw wneud gwaith adeiladu mewn mannau cyhoeddus.

## Mathau o adeiladau a'u maint



Mae arnon ni eisiau i'r canllawiau ddweud bod yn rhaid i adeilad cyhoeddus newydd, neu adeilad cyhoeddus sy'n cael ei estyn, gael **Toiled Lleoedd Newid** os:

- yw dros bum mil metr sgwar mewn maint
- gall yr adeilad gael mwy na mil o bobl ynddo.

## BOCS A

Mae arnon ni eisiau **Toiledau Lleoedd Newid** mewn lleoedd fel:




- canolfannau siopa




- canolfannau chwaraeon a chanolfannau hamdden
- ysbytai ble mae mannau cyhoeddus eraill, fel ystafelloedd aros a lleoedd bwyta



- adeiladau sy’n cael eu defnyddio ar gyfer adloniant neu gyfarfodydd
- gwesty ble gall pobl gynnal digwyddiadau cyhoeddus




- ysgolion sydd ar agor i’r gymuned.

## Maint a chyfarpar mewn Toiledau Lleoedd Newid



Byddai **Toiled Lleoedd Newid** cyffredin mewn ystafell sydd yn dri metr o led a phedwar metr o hyd mewn maint.



Dylai **Toiled Lleoedd Newid** fod yn ddigon mawr i ofalwyr fedru cefnogi rhywun.



Dylai fod digon o le ar gyfer cadair olwyn ac i bobl symud o gwmpas a defnyddio'r toiled, y basn ymolchi, y teclyn codi, a gwely newid sy'n cau yn ei ôl.



Dylai'r toiled gael lle ar bob ochr i'r person ddod allan o'i gadair olwyn. Neu i'r gofalwr ei helpu.

**Dylai Toiledau Lleoedd Newid mewn adeiladau newydd fod â:**



- theclyn codi



- basn ymolchi
- bwrdd newid maint oedolyn y gallwch chi ei symud i fyny ac i lawr



- silffoedd – er enghraifft, silff i'w ddefnyddio wrth newid bagiau colondrychiad.
- canllawiau diogelwch
- llawr gwrthlithro



- trac ar y nenfwd fel bo gofalwyr yn medru gosod strap ar y teclyn codi er mwyn codi'r person o amgylch yr ystafell
- cawod os oes digon o le



- peiriant tyweli papur
- drych hyd cyfan
- toiled sydd â pheth i gynnal y cefn



Pan fydd Toiledau Lleoedd Newid yn cael eu hychwanegu at adeiladau hŷn, gall fod yn anodd gwneud yr ystafell mor fawr â thri metr o led gan bedwar metr o hyd.



Mae arnon ni eisiau gwybod mwy am y problemau y gall pobl eu cael wrth roi Toiledau Lleoedd Newid mewn adeiladau hŷn.

## Faint mae Toiledau Lleoedd Newid yn gostio?



Gall **Toiledau Lleoedd Newid** gostio rhwng 47 mil o bunnau a 64 mil o bunnau.



Mae'n dibynnu pa un a yw'r adeilad yn newydd neu a yw'n adeilad sy yno yn barod ac yn cael ei estyn. A faint o waith sy'n gorfod cael ei wneud.



Buasai'n rhaid i fusnesau dalu i gadw'r toiledau'n lân ac yn gweithio'n iawn hefyd.



Bydd angen amser ac arian ar adeiladwyr a phobl eraill i ddysgu am ganllawiau adeiladu newydd a chynllunio.

## Ein syniadau ar gyfer Lleoedd Newid Clytiau Babanod




Mae arnon ni eisiau newid **canllawiau** rheoliadau adeiladu er mwyn:



- **gwella** Lleoedd Newid Clytiau Babanod.

- annog pobl i ddarparu **mwy** o Leoedd Newid Clytiau Babanod.



Mae arnon ni eisiau i'r canllawiau ddweud pa fathau o adeiladau ddylai gael Lleoedd Newid Clytiau Babanod.

## Pa fath o adeiladau ddylai gael Lleoedd Newid Clytiau Babanod

### BOCS B

Mae arnon ni eisiau cael **Lleoedd Newid Clytiau Babanod** mewn:



- siopau mawr neu ganolfan siopau



- mannau cyfarfod ble gall dros 200 o bobl gyfarfod



- lleoedd adloniant, tai bwyta neu leoedd sy’n medru cymryd dros 200 o bobl




- ysbyty sydd â man aros

- gwesty ble gall pobl gynnal digwyddiadau cyhoeddus




- ysgolion sydd ar agor i’r gymuned.

## Maint a chyfarpar mewn Lleoedd Newid Clytiau Babanod



Dylai Lleoedd Newid Clytiau Babanod un ai fod:

- ar wahân i doiledau eraill. A dylai dynion a menywod fedru eu defnyddio.



- yn lleoedd y tu mewn i doiledau dynion a menywod. Dylai'r toiledau fod yn hawdd i bawb eu defnyddio.



Dylai Lleoedd Newid Babanod fod nid yn **unig** y tu mewn i doiledau hawdd eu defnyddio ar wahân sydd wedi'u bwriadau ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

Dylai **Lleoedd Newid Babanod**:



- fod yn hawdd dod o hyd iddyn nhw ac yn hawdd eu cyrraedd
- yn ddigon mawr i fedru symud o gwmpas yn hawdd



- bod â basn ymolchi sydd â'r uchder iawn
- bod â bwrdd newid sydd â'r uchder iawn ar gyfer rhieni.

**BOCS C**

**Dylai Lleoedd Newid Clytiau Babanod fod â:**



- bwrdd newid clytiau sy’n cau yn ei ôl



- silff uwchben bin
- basn ymolchi sydd â’r uchder iawn



- bin gwaredu glanweithiol – ar gyfer pethau fel clytiau budr



- digon o le ar gyfer cadair olwyn neu goets fach.


## Faint mae Lleoedd Newid Clytiau Babanod yn gostio?




Gall **Lleoedd Newid Clytiau Babanod** gostio rhwng dwy fil a hanner o bunnau a phum mil a hanner o bunnau.



Mae'r gost yn dibynnu ar ba un a yw'r adeilad yn newydd neu a yw'n adeilad sy yno yn barod ac yn cael ei estyn. A faint o waith sy'n gorfod cael ei wneud.



Mae **Lleoedd Newid Clytiau Babanod** yn costio llai na **Thoiledau Lleoedd Newid** i'w glanhau a gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n iawn.



Bydd ar adeiladwyr a chynllunwyr angen amser i ddysgu am y rheolau adeiladu newydd a chynllunio.

# Costau eraill



Efallai y bydd perchnogion busnes yn colli ychydig o le yn eu hadeiladau. Gall hyn gael mwy o effaith ar leoedd fel siopau, ble mae arnyn nhw angen lle i werthu pethau.



Ond rydyn ni'n meddwl y bydd cael **Lleoedd Newid** a **Lleoedd Newid Clytiau Babanod** yn helpu busnesau i gael mwy o gwsmeriaid. A mwy o bobl yn eu hadeiladau.



Felly er y bydd llai o le bydd busnes yn gwella.

# Geiriau anodd

## Cyfarpar

Mae cyfarpar yn bethau fel meinciau newid, sgriniau preifatrwydd, teclynnau codi a larymau diogelwch.

## Hawdd ei ddefnyddio

Wrth wneud pethau'n hawdd eu defnyddio gall mwy o bobl eu defnyddio.

## Rheoliadau adeiladu

Mae rheoliadau adeiladu yn rheolau i wneud yn siŵr bod pobl yn iach ac yn ddiogel y tu mewn ac o amgylch adeiladau.

## Teclyn codi

Mae teclyn codi yn ddarn o gyfarpar sy'n gallu cael ei ddefnyddio i godi rhywun. Er enghraifft, allan o gadair olwyn ac ar y toiled.